# Prifysgol Aberystwyth i ddadfuddsoddi o Danwyddau Ffosil

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 21/02/2021

Yn darfod ar: **21/02/2024**

**Statws: Cyflawn**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Llywydd yr Undeb**

## Crynodeb

Mae angen annog myfyrwyr i gymryd rhan er mwyn gwneud yn siwr bod y brifysgol yn creu ymrwymiad llawn i ddadfuddsoddi oddi wrth fuddsoddwyr tanwydd ffosil a chadw at yr ymrwymiad hwnnw.

## Manylion

Mae’r Brifysgol yn dal i fod heb ymrwymo i gynllun dadfuddsoddi llawn i roi'r gorau i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil. Fe gyhoeddwyd y byddent yn gwneud hyn yn 2019, ond nid oes gennym restr o dargedau o hyd o ran sut i gyrraedd hyn, na phryd y caiff ei gyflawni. Mae angen i ni wneud yn siwr bod y brifysgol yn gwneud ymrwymiad llawn i ddadfuddsoddi oddi wrth eu buddsoddiadau mewn tanwydd ffosil cymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Rydym am gyrraedd sero net; rydym am fod yn wyrddach fel prifysgol ac rydym yn cymryd camau breision i wneud hyn. Fodd bynnag, mae buddsoddi mewn tanwyddau ffosil yn groes i’r hyn yr ydym yn ceisio’i gyflawni. Ar hyn o bryd, rydym yn buddsoddi dim ond mewn 3ydd partïon sy’n cefnogi tanwyddau ffosil, gyda dim ond 5.8% o’n buddsoddiadau ynghlwm â hyn. Er y gall y swm hwn swnio'n fach, mae hyn yn dal i fod yn £1,943,316. (Gwybodaeth wedi'i chymryd oddi wrth People & Planet)
Yn natganiad polisi cynaladwyedd Aberystwyth, a grëwyd yn 2020, mae rhif 17 yn dweud, "Sicrhau bod y Brifysgol yn cynyddu ei gallu i wrthsefyll risgiau newid hinsawdd". Rydym eisiau helpu’r amgylchedd, ond eto’n dal i ariannu cwmnïau sy’n ei ddinistrio.
Mae cymaint o aelodau staff yn gweithio ar hyn, a chredaf y dylid eu canmol am hynny.
Rwyf am gael undeb y myfyrwyr a myfyrwyr i gymryd rhan yn hyn, er mwyn rhoi pwysau ar y brifysgol i wneud ymrwymiad llawn i ddadfuddsoddi, gosod dyddiad a chadw ato.

Cyflwynwyd gan: Aisleen Sturrock